



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 433 (Cy. 76)

2018 No. 433 (W. 76)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol
(Cymru) 2018**

**The Agricultural Wages (Wales)
Order 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Yn ddarostyngedig i rai newidiadau ac un ddarpariaeth drosiannol, mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi eu nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn (erthygl 3) ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol (erthyglau 5 i 11).

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf y mae'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (erthygl 12). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer lwfans gwrthbwyso llety a all gael ei dynnu oddi ar dâl gweithiwr amaethyddol (erthygl 15). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ar gyfer lwfans cŵn, lwfans ar alwad, lwfans gwaith nos a grantiau geni a mabwysiadu nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol (erthygl 16).

Mae Rhan 4 yn darparu bod gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan yr amgylchiadau sydd wedi eu pennu (erthyglau 18 i 21). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch cyfrifo faint o dâl salwch amaethyddol y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael (erthygl 22). Mae taliad tâl salwch statudol i gyfrif tuag at hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol (erthygl 23).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order revokes and replaces, subject to some changes and a transitional provision, the Agricultural Wages (Wales) Order 2017.

Part 2 of the Order provides that agricultural workers are to be employed subject to the terms and conditions set out in Parts 2 to 5 of the Order (article 3) and specifies the different grades and categories of agricultural worker (article 5 to 11).

Part 3 makes provision about the minimum rates of remuneration that must be paid to agricultural workers (article 12). Provision is made for accommodation offset allowance which may be deducted from an agricultural worker's remuneration (article 15). Provision is also made for dog allowance, on-call allowance, night work allowance and birth and adoption grants which do not form part of an agricultural worker's remuneration (article 16).

Part 4 provides that an agricultural worker is entitled to agricultural sick pay in the circumstances specified (articles 18 to 21). Provision is made about calculating the amount of agricultural sick pay that a worker is entitled to (article 22). A payment of statutory sick pay is to count towards an agricultural worker's entitlement to agricultural sick pay (article 23).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael amser i ffwrdd. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael seibiannau gorffwys (erthygl 28). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd sy'n pennu blwyddyn gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol ac ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael gwyliau blynyddol a thâl gwyliau ac ynghylch taliad yn lle gwyliau blynyddol (erthyglau 29 i 36). Mae darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth yn cael ei gwneud yn erthyglau 39 i 41.

Mae Rhan 6 yn cynnwys dirymiad a darpariaeth drosiannol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Gorchymyn hwn ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

Part 5 makes provision about an agricultural worker's entitlement to time off. Provision is made about an agricultural worker's entitlement to rest breaks (article 28). Provision is also made specifying the agricultural worker's annual leave year and about agricultural worker's entitlement to annual leave, holiday pay and about payment in lieu of annual leave (articles 29 to 36). Provision about an agricultural worker's entitlement to be paid bereavement leave is made in articles 39 to 41.

Part 6 contains a revocation and a transitional provision.

The Regulatory Impact Assessment applicable to this Order is obtainable from the Welsh Government at: Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.uk.

2018 Rhif 433 (Cy. 76)

2018 No. 433 (W. 76)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol
(Cymru) 2018**

**The Agricultural Wages (Wales)
Order 2018**

Gwnaed 27 Mawrth 2018

Made 27 March 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Mawrth 2018

Laid before the National Assembly for Wales
29 March 2018

Yn dod i rym 1 Ebrill 2018

Coming into force 1 April 2018

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Rhagarweiniol

Preliminary

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli

1. Title and commencement
2. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Gweithwyr amaethyddol

Agricultural workers

3. Telerau ac amodau cyflogaeth
4. Graddau a chategoriâu gweithiwr amaethyddol
5. Gradd 2
6. Gradd 3
7. Gradd 4
8. Gradd 5
9. Gradd 6
10. Datblygu Proffesiynol Parhaus
11. Prentisiaid

3. Terms and conditions of employment
4. Grades and categories of agricultural workers
5. Grade 2
6. Grade 3
7. Grade 4
8. Grade 5
9. Grade 6
10. Continued Professional Development
11. Apprentices

RHAN 3

PART 3

Yr isafswm cyflog amaethyddol

Agricultural minimum wage

12. Cyfraddau tâl isaf
13. Cyfraddau tâl isaf am oramser
14. Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn
15. Lwfans gwrthbwysio llety
16. Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol
17. Costau hyfforddi

12. Minimum rates of pay
13. Minimum rates of pay for overtime
14. Minimum rates of pay for output work
15. Accommodation offset allowance
16. Payments which do not form part of an agricultural worker's remuneration
17. Training costs

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

18. Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol
19. Amodau cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol
20. Cyfnodau absenoldeb salwch
21. Cyfyngiadau ar yr hawl i dâl salwch amaethyddol
22. Pennu swm tâl salwch amaethyddol
23. Tâl salwch amaethyddol i gymryd tâl salwch statudol i ystyriaeth
24. Talu tâl salwch amaethyddol
25. Cyflogaeth yn dod i ben yn ystod absenoldeb salwch
26. Gordalu tâl salwch amaethyddol
27. Iawndal a adenillir yn sgil colli enillion

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

28. Seibiannau gorffwys
29. Y flwyddyn gwyliau blynyddol
30. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio penodedig a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau
31. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio amrywiol a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau
32. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a gyflogir am ran o'r flwyddyn gwyliau
33. Amseru gwyliau blynyddol
34. Tâl gwyliau
35. Gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc
36. Taliad yn lle gwyliau blynyddol
37. Talu tâl gwyliau wrth derfynu cyflogaeth
38. Adennill tâl gwyliau
39. Absenoldeb oherwydd profedigaeth
40. Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth
41. Swm tâl absenoldeb oherwydd profedigaeth
42. Absenoldeb di-dâl

PART 4

Entitlement to agricultural sick pay

18. Entitlement to agricultural sick pay
19. Qualifying conditions for agricultural sick pay
20. Periods of sickness absence
21. Limitations on entitlement to agricultural sick pay
22. Determining the amount of agricultural sick pay
23. Agricultural sick pay to take account of statutory sick pay
24. Payment of agricultural sick pay
25. Employment ending during sickness absence
26. Overpayments of agricultural sick pay
27. Damages recovered for loss of earnings

PART 5

Entitlement to time off

28. Rest breaks
29. Annual leave year
30. Amount of annual leave for agricultural workers with fixed working days employed throughout the leave year
31. Amount of annual leave for agricultural workers with variable working days employed throughout the leave year
32. Amount of annual leave for agricultural workers employed for part of the leave year
33. Timing of annual leave
34. Holiday pay
35. Public holidays and bank holidays
36. Payment in lieu of annual leave
37. Payment of holiday pay on termination of employment
38. Recovery of holiday pay
39. Bereavement leave
40. Determining the amount of bereavement leave
41. Amount of pay of bereavement leave
42. Unpaid leave

RHAN 6

Dirymu a darpariaeth drosiannol

43. Dirymu a darpariaeth drosiannol

ATODLEN 1 – Dyfarniadau a thystysgrifau
cymhwysedd gweithwyr
Gradd 2

ATODLEN 2 – Dyfarniadau a thystysgrifau
cymhwysedd gweithwyr
Gradd 3

ATODLEN 3 – Dyfarniadau a thystysgrifau
cymhwysedd gweithwyr
Gradd 4

ATODLEN 4 – Cyfraddau tâl isaf

ATODLEN 5 – Hawliau gwyliau blynyddol

ATODLEN 6 – Taliad yn lle gwyliau
blynyddol

Mae Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru, yn unol â'i swyddogaethau o dan erthygl 3(2)(b) o Orchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016(1), wedi llunio gorchymyn cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, wedi ymgynghori ar y gorchymyn ac wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r gorchymyn cyflogau amaethyddol drafft yn unol ag adran 4(1)(a) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(2).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 3, 4(1) a 17 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018.

PART 6

Revocation and transitional provision

43. Revocation and transitional provision

SCHEDULE 1 – Awards and certificates of
competence for Grade 2 workers

SCHEDULE 2 – Awards and certificates of
competence for Grade 3 workers

SCHEDULE 3 – Awards and certificates of
competence for Grade 4 workers

SCHEDULE 4 – Minimum rates of pay

SCHEDULE 5 – Annual leave entitlement

SCHEDULE 6 – Payment in lieu of annual leave

The Agricultural Advisory Panel for Wales, in accordance with their functions under article 3(2)(b) of the Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016(1) have prepared an agricultural wages order in draft, consulted on the order and submitted it to the Welsh Ministers for approval.

The Welsh Ministers have approved the draft agricultural wages order in accordance with section 4(1)(a) of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014(2).

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 3, 4(1) and 17 of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014, make the following Order.

PART 1

Preliminary

Title and commencement

1. The title of this Order is the Agricultural Wages (Wales) Order 2018 and it comes into force on 1 April 2018.

(1) O.S. 2016/255 (Cy. 89).

(2) 2014 dccc 6.

(1) S.I. 2016/255 (W. 89).

(2) 2014 anaw 6.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “absenoldeb salwch” (“*sickness absence*”) yw absenoldeb unrhyw weithiwr amaethyddol o’r gwaith oherwydd analluedd yn sgil—

- (a) unrhyw salwch a ddiodefir gan y gweithiwr amaethyddol;
- (b) salwch neu analluedd a achosir am fod y gweithiwr amaethyddol yn feichiog neu a ddiodefir o ganlyniad i eni plentyn;
- (c) anaf sy’n digwydd i’r gweithiwr amaethyddol yn ei le gwaith;
- (d) anaf sy’n digwydd i’r gweithiwr amaethyddol wrth deithio yn ôl ac ymlaen i’w le gwaith;
- (e) amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn ymadfer ar ôl llawdriniaeth a achoswyd gan salwch; neu
- (f) amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn ymadfer ar ôl llawdriniaeth o ganlyniad i anaf a ddiodefwyd yn ei le gwaith neu anaf a ddiodefwyd wrth deithio yn ôl ac ymlaen i’w le gwaith,

ond nid yw’n cynnwys unrhyw anaf a ddiodefir gan y gweithiwr amaethyddol pan na fo yn ei le gwaith nac unrhyw anaf a ddiodefir pan na fo’r gweithiwr amaethyddol yn teithio yn ôl ac ymlaen i’w le gwaith;

ystyr “amser gweithio” (“*working time*”) yw unrhyw gyfnod pryd y mae gweithiwr amaethyddol yn gweithio yng ngwasanaeth ei gyflogwr ac yn cyflawni ei weithgareddau neu ei ddyletswyddau yn unol â naill ai ei contract gwasanaeth neu ei brentisiaeth ac mae’n cynnwys—

- (a) unrhyw gyfnod pryd y mae gweithiwr amaethyddol yn derbyn hyfforddiant perthnasol;
- (b) unrhyw gyfnod a dreulir gan weithiwr amaethyddol yn teithio at ddibenion ei gyflogaeth ond nad yw’n cynnwys amser a dreulir yn teithio rhwng ei gartref a’i le gwaith;
- (c) unrhyw gyfnod y mae gweithiwr amaethyddol yn cael ei rwystro rhag cyflawni gweithgareddau neu ddyletswyddau yn unol â’i contract gwasanaeth neu ei brentisiaeth oherwydd tywydd drwg; a
- (d) unrhyw gyfnod ychwanegol y mae’r cyflogwr a’r gweithiwr amaethyddol yn cytuno ei fod i’w drin fel amser gweithio,

Interpretation

2.—(1) In this Order—

“basic hours” (“*oriau sylfaenol*”) means 39 hours of work per week, excluding overtime, worked in accordance with either an agricultural worker’s contract of service or an apprenticeship;

“birth and adoption grant” (“*grant geni a mabwysiadu*”) means a payment that an agricultural worker is entitled to receive from their employer on the birth of their child or upon the adoption of a child and is payable—

- (a) where the agricultural worker has given their employer a copy of the child’s Birth Certificate or Adoption Order (naming the worker as the child’s parent or adoptive parent) within 3 months of the child’s birth or adoption; and
- (b) in circumstances where both parents or adoptive parents are agricultural workers with the same employer, to each agricultural worker;

“compulsory school age” (“*oedran ysgol gorfodol*”) has the meaning given in section 8 of the Education Act 1996(1);

“guaranteed overtime” (“*goramser gwarantedig*”) means overtime which an agricultural worker is obliged to work either under their contract of service or their apprenticeship and in respect of which the agricultural worker’s employer guarantees payment, whether or not there is work for the agricultural worker to do;

“hours” (“*oriau*”) includes a fraction of an hour;

“house” (“*tŷ*”) means a whole dwelling house or self-contained accommodation that by virtue of the agricultural worker’s contract of service the agricultural worker is required to live in for the proper or better performance of their duties and includes any garden within the curtilage of such a dwelling house or self-contained accommodation;

“night work” (“*gwaith nos*”) means work (apart from overtime hours) undertaken by an agricultural worker between 7 p.m. on one evening and 6 a.m. the following morning, but excluding the first two hours of work that an agricultural worker does in that period;

(1) 1996 c. 56. Section 8 was amended by the Education Act 1997 (c. 44), section 52.

ac mae cyfeiriadau at “gwaith” (“*work*”) i’w dehongli yn unol â hyn;

ystyr “ar alwad” (“*on-call*”) yw trefniant ffurfiol rhwng y gweithiwr amaethyddol a’i gyflogwr pan fo gweithiwr amaethyddol nad yw yn y gwaith yn cytuno â’i gyflogwr y bydd modd cysylltu ag ef drwy gyfrwng y cytunir arno ac y gall gyrraedd y fan lle y gall fod yn ofynnol iddo weithio o fewn amser y cytunir arno;

ystyr “diwrnodau cymwys” (“*qualifying days*”) yw diwrnodau pan fyddai’n ofynnol fel arfer i’r gweithiwr amaethyddol fod ar gael i weithio heblaw unrhyw ddiwrnodau pan oedd y gweithiwr amaethyddol—

- (a) yn cymryd gwyliau blynyddol;
- (b) yn cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth; neu
- (c) yn cymryd absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu statudol;

ystyr “goramser” (“*overtime*”) yw—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr amaethyddol a ddechreuodd ei gyflogaeth cyn 1 Hydref 2006, amser nad yw’n oramser gwarantedig y mae’r gweithiwr amaethyddol yn ei weithio—
 - (i) yn ychwanegol at ddiwrnod gwaith 8 awr;
 - (ii) yn ychwanegol at yr oriau gwaith y cytunwyd arnynt yn ei gontract gwasanaeth;
 - (iii) ar ŵyl gyhoeddus;
 - (iv) ar ddydd Sul; neu
 - (v) mewn unrhyw gyfnod sy’n cychwyn ar ddydd Sul ac yn parhau hyd y dydd Llun canlynol hyd at yr amser y byddai’r gweithiwr hwnnw yn cychwyn ei ddiwrnod gwaith fel arfer;
- (b) mewn perthynas â phob gweithiwr amaethyddol arall, amser nad yw’n oramser gwarantedig y mae’r gweithiwr amaethyddol yn ei weithio—
 - (i) yn ychwanegol at ddiwrnod gwaith 8 awr;
 - (ii) yn ychwanegol at yr oriau gwaith y cytunwyd arnynt yn ei gontract gwasanaeth; neu
 - (iii) ar ŵyl gyhoeddus;

“on-call” (“*ar alwad*”) means a formal arrangement between the agricultural worker and their employer where an agricultural worker who is not at work agrees with their employer to be contactable by an agreed method and able to reach the place where they may be required to work within an agreed time;

“other accommodation” (“*llety arall*”) means any living accommodation other than a house which—

- (a) is fit for human habitation;
- (b) is safe and secure;
- (c) provides a bed for the sole use of each individual agricultural worker; and
- (d) provides clean drinking water, suitable and sufficient sanitary conveniences and washing facilities for agricultural workers in accordance with regulations 20 to 22 of the Workplace (Health, Safety and Welfare) Regulations 1992(1) as if the accommodation was a workplace to which regulations 20 to 22 of those Regulations applied;

“overtime” (“*goramser*”) means—

- (a) in relation to an agricultural worker who began their employment prior to 1 October 2006, time that is not guaranteed overtime worked by the agricultural worker—
 - (i) in addition to an 8 hour working day;
 - (ii) in addition to the agreed hours of work in their contract of service;
 - (iii) on a public holiday,
 - (iv) on a Sunday; or
 - (v) in any period commencing on a Sunday and continuing to the following Monday up until the time that worker would normally start their working day;
- (b) in relation to all other agricultural workers, time that is not guaranteed overtime worked by the agricultural worker—
 - (i) in addition to an 8 hour working day;
 - (ii) in addition to the agreed hours of work in their contract of service; or
 - (iii) on a public holiday;

(1) S.I. 1992/3004.

ystyr “goramser gwarantedig” (“*guaranteed overtime*”) yw goramser y mae’n ofynnol i weithiwr amaethyddol ei weithio o dan naill ai ei contract gwasanaeth neu ei brentisiaeth ac y mae cyflogwr y gweithiwr amaethyddol yn gwarantu taliad ar ei gyfer, p’un a oes gwaith i’r gweithiwr amaethyddol ei wneud neu beidio;

ystyr “grant geni a mabwysiadu” (“*birth and adoption grant*”) yw taliad y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i’w gael oddi wrth ei gyflogwr pan enir plentyn iddo neu pan fydd yn mabwysiadu plentyn ac mae’n daladwy—

- (a) pan fo’r gweithiwr amaethyddol wedi rhoi copi i’w gyflogwr o Dystysgrif Geni’r plentyn neu ei Orchymyn Mabwysiadu (sy’n enwi’r gweithiwr fel rhiant y plentyn neu ei riant mabwysiadol) o fewn 3 mis ar ôl geni neu fabwysiadu’r plentyn; a
- (b) o dan amgylchiadau pan fo’r ddau riant neu’r ddau riant mabwysiadol yn weithwyr amaethyddol gyda’r un cyflogwr, i’r ddau weithiwr amaethyddol;

ystyr “gwaith allbwn” (“*output work*”) yw gwaith sydd, at ddibenion tâl, yn cael ei fesur yn ôl nifer y darnau a wneir neu a brosesir neu nifer y tasgau a gyflawnir gan weithiwr amaethyddol;

ystyr “gwaith nos” (“*night work*”) yw gwaith (heblaw oriau goramser) a wneir gan weithiwr amaethyddol rhwng 7 p.m. un noson a 6 a.m. fore trannoeth, ond heb gynnwys y ddwy awr gyntaf o waith y mae gweithiwr amaethyddol yn ei wneud yn y cyfnod hwnnw;

ystyr “llety arall” (“*other accommodation*”) yw unrhyw lety byw heblaw tŷ—

- (a) sy’n addas i bobl fyw ynddo;
- (b) sy’n ddiogel ac yn ddiiddos;
- (c) sy’n darparu gwely i’w ddefnyddio gan bob gweithiwr amaethyddol unigol yn unig; a
- (d) sy’n darparu dŵr yfed glân, cyfleusterau glanweithdra addas a digonol a chyfleusterau ymolchi i weithwyr amaethyddol yn unol â rheoliadau 20 i 22 o Reoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992(1) fel pe bai’r llety’n weithle yr oedd rheoliadau 20 i 22 o’r Rheoliadau hynny’n gymwys iddo;

mae i “oedran ysgol gorfodol” yr ystyr a roddir i “*compulsory school age*” yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996(2);

“output work” (“*gwaith allbwn*”) means work which, for the purposes of remuneration, is measured by the number of pieces made or processed or the number of tasks performed by an agricultural worker;

“qualifying days” (“*diwrnodau cymwys*”) means days on which the agricultural worker would normally be required to be available for work apart from any days on which the agricultural worker—

- (a) was taking annual leave;
- (b) was taking bereavement leave; or
- (c) was taking statutory maternity, paternity or adoption leave;

“sickness absence” (“*absenoldeb salwch*”) means the absence of an agricultural worker from work due to incapacity by reason of—

- (a) any illness suffered by the agricultural worker;
- (b) illness or incapacity caused by the agricultural worker’s pregnancy or suffered as a result of childbirth;
- (c) an injury that occurs to the agricultural worker at the agricultural worker’s place of work;
- (d) an injury that occurs to the agricultural worker when travelling to or from their place of work;
- (e) time spent by the agricultural worker recovering from an operation caused by an illness; or
- (f) time spent by the agricultural worker recovering from an operation in consequence of an injury suffered at their place of work or an injury suffered whilst travelling to or from their place of work,

but does not include any injury suffered by the agricultural worker when not at their place of work nor any injury suffered when the agricultural worker is not travelling to or from their place of work;

“travelling” (“*teithio*”) means a journey by a mode of transport or a journey on foot and includes—

- (a) waiting at a place of departure to begin a journey by a mode of transport;
- (b) waiting at a place of departure for a journey to re-commence either by the same or another mode of transport, except for any time the agricultural worker spends taking a rest break; and
- (c) waiting at the end of a journey for the purpose of carrying out duties, or to receive training, except for any time the agricultural worker spends taking a rest break;

(1) O.S. 1992/3004.

(2) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

mae “oriau” (“hours”) yn cynnwys ffraciwn o awr;

ystyr “oriau sylfaenol” (“basic hours”) yw 39 awr o waith yr wythnos, heb gynnwys goramser, a weithir yn unol â naill ai contract gwasanaeth neu brentisiaeth gweithiwr amaethyddol;

ystyr “teithio” (“travelling”) yw siwrnai drwy gyfrwng dull teithio neu siwrnai ar droed yn cynnwys—

- (a) aros wrth fan ymadael i gychwyn siwrnai drwy gyfrwng dull teithio;
- (b) aros wrth fan ymadael i siwrnai ailgychwyn naill ai drwy gyfrwng yr un dull teithio neu drwy gyfrwng un arall, ac eithrio unrhyw amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn cymryd seibiant gorffwys; ac
- (c) aros ar ddiwedd siwrnai i gyflawni dyletswyddau, neu i dderbyn hyfforddiant, ac eithrio unrhyw amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn cymryd seibiant gorffwys;

ystyr “tŷ” (“house”) yw tŷ annedd cyfan neu lety hunangynhwysol y mae’n ofynnol i’r gweithiwr amaethyddol fyw ynddo yn rhinwedd contract gwasanaeth y gweithiwr amaethyddol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd priodol neu well ac mae’n cynnwys unrhyw ardd o fewn cwrttil y tŷ annedd neu’r llety hunangynhwysol hwnnw.

(2) Yn yr erthygl hon mae’r cyfeiriad at weithwyr amaethyddol a ddechreuodd eu cyflogaeth cyn 1 Hydref 2006 yn cynnwys gweithwyr amaethyddol—

- (a) y mae telerau eu contract wedi bod yn destun unrhyw amrywiad ers hynny; neu
- (b) sydd wedi eu cyflogi gan gyflogwr newydd ers hynny yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(1).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at gyfnod o gyflogaeth ddi-dor i’w dehongli fel cyfnod o gyflogaeth ddi-dor a gyfrifir yn unol ag adrannau 210 i 219 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(2).

“working time” (“amser gweithio”) means any period during which an agricultural worker is working at their employer’s disposal and carrying out activities or duties in accordance with either their contract of service or their apprenticeship and includes—

- (a) any period during which an agricultural worker is receiving relevant training;
- (b) any time spent travelling by an agricultural worker for the purposes of their employment but does not include time spent commuting between their home and their place of work;
- (c) any period during which an agricultural worker is prevented from carrying out activities or duties in accordance with their contract of service or their apprenticeship due to bad weather; and
- (d) any additional period which the employer and the agricultural worker agree is to be treated as working time,

and references to “work” (“gwaith”) are to be construed accordingly.

(2) In this article the reference to agricultural workers who began their employment prior to the 1 October 2006 includes agricultural workers—

- (a) whose contract terms have since been subject to any variation; or
- (b) who have since been employed by a new employer pursuant to the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006(1).

(3) References in this Order to a period of continuous employment are to be construed as a period of continuous employment computed in accordance with sections 210 to 219 of the Employment Rights Act 1996(2).

(1) O.S. 2006/246.

(2) 1996 p. 18. Diwygiwyd adran 211 gan Atodlen 8 i O.S. 2006/1031. Diwygiwyd adran 212 gan Atodlenni 4 a 9 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 26). Diwygiwyd adran 215 gan Atodlen 7 i Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, etc.) 1999 (p. 2). Diwygiwyd adran 219 gan Atodlen 15 i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8).

(1) S.I. 2006/246.

(2) 1996 c. 18. Section 211 was amended by Schedule 8 to S.I. 2006/1031. Section 212 was amended by Schedules 4 and 9 to the Employment Relations Act 1999 (c. 26). Section 215 was amended by Schedule 7 to the Social Security Contributions (Transfer of Functions, etc.) Act 1999 (c. 2). Section 219 was amended by Schedule 15 to the Employment Rights (Dispute Resolution) Act 1998 (c. 8).

RHAN 2

Gweithwyr amaethyddol

Telerau ac amodau cyflogaeth

3. Mae cyflogaeth gweithiwr amaethyddol yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a nodir yn y Rhan hon ac yn Rhannau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn.

Graddau a chategoriâu gweithiwr amaethyddol

4. Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei gyflogi fel gweithiwr ar un o'r Graddau a bennir yn erthyglau 5 i 9 neu 10(1) neu fel prentis yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 11.

Gradd 2

5. Rhaid i weithiwr amaethyddol—

- (a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo—
 - (i) un o'r dyfarniadau neu'r tystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 1;
 - (ii) un Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu
 - (iii) cymhwyster cyfatebol; neu
- (b) y mae'n ofynnol iddo—
 - (i) gweithio heb oruchwyliaeth;
 - (ii) gweithio gydag anifeiliaid;
 - (iii) gweithio â pheiriannau pŵer; neu
 - (iv) gyrru tractor amaethyddol,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 2.

Gradd 3

6.—(1) Rhaid i weithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi mewn amaethyddiaeth am gyfnod agredig o 2 flynedd o leiaf yn ystod y 5 mlynedd blaenorol ac—

- (a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo—
 - (i) un o'r dyfarniadau neu'r tystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 2;
 - (ii) un Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu
 - (iii) cymhwyster cyfatebol; neu

PART 2

Agricultural workers

Terms and conditions of employment

3. An agricultural worker's employment is subject to the terms and conditions set out in this Part and Parts 3, 4 and 5 of this Order.

Grades and categories of agricultural worker

4. An agricultural worker must be employed as a worker at one of the Grades specified in articles 5 to 9 or 10(1) or as an apprentice in accordance with the provisions in article 11.

Grade 2

5. An agricultural worker who—

- (a) provides documentary evidence to an employer that they hold—
 - (i) one of the awards or certificates of competence listed in the tables in Schedule 1;
 - (ii) one National Vocational Qualification relevant to their work; or
 - (iii) an equivalent qualification; or
- (b) is required to—
 - (i) work without supervision;
 - (ii) work with animals;
 - (iii) work with powered machinery; or
 - (iv) drive an agricultural tractor,

must be employed as a worker at Grade 2.

Grade 3

6.—(1) An agricultural worker who has been employed in agriculture for an aggregate period of at least 2 years in the previous 5 years and who—

- (a) provides documentary evidence to an employer that they hold—
 - (i) one of the awards or certificates of competence listed in the tables in Schedule 2;
 - (ii) one National Vocational Qualification relevant to their work; or
 - (iii) an equivalent qualification; or

(b) sydd wedi ei ddynodi'n arweinydd tîm, gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 3.

(2) At ddibenion yr erthygl hon, mae "arweinydd tîm" yn gyfrifol am arwain tîm o weithwyr amaethyddol ac am fonitro sut mae'r tîm yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan neu ar ran eu cyflogwr ond nid yw'n gyfrifol am faterion disgyblu.

Gradd 4

7. Rhaid i weithiwr amaethyddol—

- (a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo gyfanswm o 8 cymhwyster sydd naill ai—
 - (i) yn ddyfarniadau neu dystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 1;
 - (ii) yn Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu
 - (iii) yn gymwysterau cyfatebol; neu
- (b) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo 1 o'r dyfarniadau neu dystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 3 neu gymhwyster cyfatebol; ac
- (c) sydd naill ai—
 - (i) wedi ei gyflogi mewn amaethyddiaeth am gyfnod agoredig o 2 flynedd o leiaf yn ystod y 5 mlynedd diwethaf; neu
 - (ii) wedi ei gyflogi'n ddi-dor am gyfnod o 12 mis neu ragor o leiaf gan yr un cyflogwr ers ennill y cymwysterau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b),

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 4.

Gradd 5

8. Rhaid i weithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd—

- (a) dros oruchwylio'r gwaith a gyflawnir ar ddaliad y cyflogwr;
- (b) dros roi penderfyniadau rheoli ar waith; neu
- (c) dros reoli staff,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 5.

(b) is designated as a team leader, must be employed as a worker at Grade 3.

(2) For the purposes of this article, a "team leader" is responsible for leading a team of agricultural workers and for monitoring the team's compliance with instructions given by or on behalf of their employer but is not responsible for disciplinary matters.

Grade 4

7. An agricultural worker who—

- (a) provides documentary evidence to an employer that they hold a total of 8 qualifications which are either—
 - (i) awards or certificates of competence listed in the tables in Schedule 1;
 - (ii) National Vocational Qualifications relevant to their work; or
 - (iii) equivalent qualifications; or
- (b) provides documentary evidence to an employer that they hold 1 of the awards or certificates of competence listed in the tables in Schedule 3 or an equivalent qualification; and
- (c) who has either—
 - (i) been employed in agriculture for an aggregate period of at least 2 years in the last 5 years; or
 - (ii) been continuously employed for a period of at least 12 months or more by the same employer since obtaining the qualifications referred to in paragraphs (a) and (b),

must be employed as a worker at Grade 4.

Grade 5

8. An agricultural worker who is required to have day to day responsibility—

- (a) for supervising the work carried out on the employer's holding;
- (b) for implementing management decisions; or
- (c) for managing staff,

must be employed as a worker at Grade 5.

Gradd 6

9. Rhaid i weithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli—

- (a) dros ddaliad cyfan y cyflogwr;
- (b) dros ran o ddaliad y cyflogwr a redir fel gweithrediad neu fusnes ar wahân; neu
- (c) dros hurio a rheoli staff,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 6.

Datblygu Proffesiynol Parhaus

10.—(1) Rhaid i weithiwr amaethyddol na ellir ei gyflogi ar un o Raddau 2 i 6 yn unol â'r ddarpariaeth yn erthyglau 5 i 9 o'r Gorchymyn hwn ac nad yw'n brentis yn unol ag erthygl 11 gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 1.

(2) Mae prentis sydd yn nhrydedd flwyddyn ac unrhyw flwyddyn olynol ei brentisiaeth i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau tâl isaf ac unrhyw delerau ac amodau eraill yn y Gorchymyn hwn sy'n gymwys i weithwyr amaethyddol a gyflogir ar Radd 2.

(3) Rhaid i weithiwr amaethyddol—

- (a) cadw tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau a phrofiad a enillwyd ganddo sy'n berthnasol i'w gyflogaeth; a
- (b) rhoi gwybod i'w gyflogwr os yw wedi ennill cymwysterau a phrofiad sy'n ei alluogi i gael ei gyflogi ar Radd wahanol.

Prentisiaid

11.—(1) Mae gweithiwr amaethyddol yn brentis sydd wedi ei gyflogi o dan brentisiaeth—

- (a) os yw'n cael ei gyflogi o dan naill ai contract prentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth o fewn ystyr "apprenticeship agreement" yn adran 32 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(1), neu'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan contract prentisiaeth; a
- (b) os yw o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl cychwyn y gyflogaeth honno yn llai na 19 oed.

(2) Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan contract prentisiaeth os yw wedi ei gymryd ymlaen yng Nghymru o dan drefniadau Llywodraeth o'r enw Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau neu Brentisiaethau Uwch.

Grade 6

9. An agricultural worker who is required to have management responsibility—

- (a) for the entire of the employer's holding;
- (b) for part of the employer's holding which is run as a separate operation or business; or
- (c) for hiring and managing staff,

must be employed as a worker at Grade 6.

Continued Professional Development

10.—(1) An agricultural worker who cannot be employed at one of the Grades 2 to 6 in accordance with the provision in articles 5 to 9 of this Order and who is not an apprentice in accordance with article 11 must be employed as a worker at Grade 1.

(2) An apprentice in the third year and any subsequent year of their apprenticeship is to be subject to the minimum rates of pay and other terms and conditions in this Order that apply to agricultural workers employed at Grade 2.

(3) An agricultural worker must—

- (a) maintain documentary evidence of qualifications and experience gained by them that is relevant to their employment; and
- (b) inform their employer if they have gained qualifications and experience that enables them to be employed at a different Grade.

Apprentices

11.—(1) An agricultural worker is an apprentice employed under an apprenticeship if—

- (a) they are employed under either a contract of apprenticeship, an apprenticeship agreement within the meaning of section 32 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(1) or are treated as employed under a contract of apprenticeship; and
- (b) they are within the first 12 months after the commencement of that employment under 19 years of age.

(2) An agricultural worker must be treated as employed under a contract of apprenticeship if they are engaged in Wales under Government arrangements known as Foundation Apprenticeships, Apprenticeships or Higher Apprenticeships.

(1) 2009 p. 22.

(1) 2009 c. 22.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr “trefniadau Llywodraeth” yw trefniadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(1) neu o dan adran 17B o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(2).

RHAN 3

Yr isafswm cyflog amaethyddol

Cyfraddau tâl isaf

12.—(1) Yn ddarostyngedig i weithrediad adran 1 o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(3), rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â'u gwaith yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol.

(2) Yr isafswm cyflog amaethyddol yw'r gyfradd isaf fesul awr a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4 fel y gyfradd sy'n gymwys i bob gradd o weithiwr amaethyddol ac i brentisiaid.

Cyfraddau tâl isaf am oramser

13. Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â goramser a weithir yn ôl cyfradd nad yw'n llai nag 1.5 gwaith yr isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w categori.

Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn

14. Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â gwaith allbwn yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w categori.

(3) In this article “Government arrangements” means arrangements made under section 2 of the Employment and Training Act 1973(1) or under section 17B of the Jobseekers Act 1995(2).

PART 3

Agricultural minimum wage

Minimum rates of pay

12.—(1) Subject to the operation of section 1 of the National Minimum Wage Act 1998(3), agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of their work at a rate which is not less than the agricultural minimum wage.

(2) The agricultural minimum wage is the minimum hourly rate specified in the Table in Schedule 4 as being applicable to each grade of agricultural worker and to apprentices.

Minimum rates of pay for overtime

13. Agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of overtime worked at a rate which is not less than 1.5 times the agricultural minimum wage specified in article 12 of, and Schedule 4 to, this Order which is applicable to their grade or category.

Minimum rates of pay for output work

14. Agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of output work at a rate which is not less than the agricultural minimum wage specified in article 12 of, and Schedule 4 to, this Order which is applicable to their grade or category.

-
- (1) 1973 p. 50. Diwygiwyd adran 2 gan adran 25 o Ddeddf Cyflogaeth 1988 (p. 19) ac adran 47 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p. 19). Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1995 p. 18. Diddymwyd adran 17B gan adran 147 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) a Rhan 4 o Atodlen 14 iddi. Mae'r diddymiad yn effeithiol at ddiwedd penodol yn unol ag O.S. 2013/983, O.S. 2013/1511, O.S. 2013/2657, O.S. 2013/2846, O.S. 2014/209, O.S. 2014/1583, O.S. 2014/2321, O.S. 2014/3094, O.S. 2015/33, O.S. 2015/101, O.S. 2015/634, O.S. 2015/1537, O.S. 2015/1930, O.S. 2016/33 ac O.S. 2016/407.
- (3) 1998 p. 39.

-
- (1) 1973 c. 50. Section 2 was amended by section 25 of the Employment Act 1988 (c. 19) and section 47 of the Trade Union Reform and Employment Rights Act 1993 (c. 19). Relevant functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
- (2) 1995 c. 18. Section 17B is repealed by section 147 of, and Part 4 of Schedule 14 to the Welfare Reform Act 2012 (c. 5). The repeal has effect for certain purposes pursuant to S.I. 2013/983, S.I. 2013/1511, S.I. 2013/2657, S.I. 2013/2846, S.I. 2014/209, S.I. 2014/1583, S.I. 2014/2321, S.I. 2014/3094, S.I. 2015/33, S.I. 2015/101, S.I. 2015/634, S.I. 2015/1537, S.I. 2015/1930, S.I. 2016/33 and S.I. 2016/407.
- (3) 1998 c. 39.

Lwfans gwrthbwyso llety

15.—(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer yr wythnos honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr.

(3) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (2) gael ei wneud.

(4) Rhaid i unrhyw amser yn ystod yr wythnos honno pan fo'r gweithiwr amaethyddol ar wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth gyfrif tuag at y 15 awr hynny.

Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol

16. Nid yw'r lwfansau a'r taliadau a ganlyn yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol—

- (a) lwfans cŵn o £8.02 y ci i'w dalu'n wythnosol pan fo'i gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gadw un neu ragor o gŵn;
- (b) lwfans ar alwad o swm sy'n cyfateb i ddwy waith y gyfradd goramser fesul awr a nodir yn erthygl 13 o'r Gorchymyn hwn;
- (c) lwfans gwaith nos o £1.52 am bob awr o waith nos; a
- (d) grant geni a mabwysiadu o £63.09 am bob plentyn.

Costau hyfforddi

17.—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn mynd ar gwrs hyfforddi gyda chytundeb ei gyflogwr ymlaen llaw, rhaid i'r cyflogwr dalu—

- (a) unrhyw ffioedd am y cwrs; a
- (b) unrhyw gostau teithio a llety a ysgwyddir gan y gweithiwr amaethyddol wrth fynd ar y cwrs.

(2) Bernir bod gweithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi'n ddi-dor ar Radd 1 gan yr un cyflogwr am ddim llai na 30 wythnos wedi cael cymeradwyaeth ei gyflogwr i ymgymryd â hyfforddiant gyda golwg ar sicrhau'r cymwysterau angenrheidiol y mae'n ofynnol i weithiwr Radd 2 feddu arnynt.

Accommodation offset allowance

15.—(1) Where in any week an employer provides an agricultural worker with a house for the whole of that week, the employer may deduct the sum of £1.50 from the agricultural worker's minimum wage payable under article 12 of this Order for that week.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), where in any week an employer provides an agricultural worker with other accommodation, the employer may deduct the sum of £4.82 from the agricultural worker's minimum wage payable under article 12 of this Order for each day in the week that the other accommodation is provided to the worker.

(3) The deduction in paragraph (2) may only be made when the agricultural worker has worked for a minimum of 15 hours in that week.

(4) Any time during that week when the agricultural worker is on annual leave or bereavement leave must count towards those 15 hours.

Payments which do not form part of an agricultural worker's remuneration

16. The following allowances and payments do not form part of an agricultural worker's remuneration—

- (a) a dog allowance of £8.02 per dog to be paid weekly where an agricultural worker is required by their employer to keep one or more dogs;
- (b) on-call allowance of a sum which is equivalent to two times the hourly overtime rate set out in article 13 of this Order;
- (c) a night work allowance of £1.52 for each hour of night work; and
- (d) a birth and adoption grant of £63.09 for each child.

Training costs

17.—(1) Where an agricultural worker attends a training course with the prior agreement of their employer, the employer must pay—

- (a) any fees for the course; and
- (b) any travelling and accommodation expenses incurred by the agricultural worker attending the course.

(2) An agricultural worker who has been continuously employed at Grade 1 by the same employer for not less than 30 weeks is deemed to have received the approval of their employer to undertake training with a view to attaining the necessary qualifications required of a Grade 2 worker.

(3) Y cyflogwr sydd i dalu am unrhyw hyfforddiant y mae gweithiwr amaethyddol yn ymgymryd ag ef yn unol â pharagraff (2).

(3) Any training undertaken by an agricultural worker in accordance with paragraph (2), is to be paid for by the employer.

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

18. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn y Rhan hon, mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr mewn cysylltiad â'i absenoldeb salwch.

Amodau cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol

19. Mae gweithiwr amaethyddol yn cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn ar yr amod bod y gweithiwr amaethyddol—

- (a) wedi cael ei gyflogi'n barhaus gan ei gyflogwr am gyfnod o 52 o wythnosau o leiaf cyn yr absenoldeb salwch;
- (b) wedi hysbysu ei gyflogwr am yr absenoldeb salwch mewn ffordd a gytunwyd yn flaenorol gyda'i gyflogwr neu, yn niffyg unrhyw gytundeb o'r fath, drwy unrhyw ddull rhesymol;
- (c) mewn amgylchiadau pan fo'r absenoldeb salwch wedi parhau am gyfnod o 8 diwrnod yn olynol neu ragor, wedi darparu tystysgrif i'w gyflogwr gan ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n datgelu'r diagnosis ynghylch anhwylder meddygol y gweithiwr ac sy'n datgan mai'r anhwylder sydd wedi achosi absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol.

Cyfnodau absenoldeb salwch

20. Rhaid i unrhyw 2 gyfnod o salwch sydd â chyfnod o ddim mwy na 14 diwrnod rhyngddynt gael eu trin fel un cyfnod o absenoldeb salwch.

Cyfyngiadau ar yr hawl i dâl salwch amaethyddol

21.—(1) Ni fydd tâl salwch amaethyddol yn daladwy am y 3 diwrnod cyntaf o absenoldeb salwch o dan amgylchiadau pan fo hyd yr absenoldeb salwch yn llai na 14 diwrnod.

(2) Yn ystod pob cyfnod hawl, uchafswm nifer yr wythnosau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol ar eu cyfer yw—

PART 4

Entitlement to agricultural sick pay

Entitlement to agricultural sick pay

18. Subject to the provisions in this Part, an agricultural worker is entitled to receive agricultural sick pay from their employer in respect of their sickness absence.

Qualifying conditions for agricultural sick pay

19. An agricultural worker qualifies for agricultural sick pay under this Order provided that the agricultural worker has—

- (a) been continuously employed by their employer for a period of at least 52 weeks prior to the sickness absence;
- (b) notified their employer of the sickness absence in a way previously agreed with their employer or, in the absence of any such agreement, by any reasonable means;
- (c) in circumstances where the sickness absence has continued for a period of 8 or more consecutive days, provided their employer with a certificate from a registered medical practitioner which discloses the diagnosis of the worker's medical disorder and states that the disorder has caused the agricultural worker's sickness absence.

Periods of sickness absence

20. Any 2 periods of sickness absence which are separated by a period of not more than 14 days must be treated as a single period of sickness absence.

Limitations on entitlement to agricultural sick pay

